

# CYNGOR CYMUNED BRITHDIR A LLANFACHRETH

Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor uchod yn Neuadd Bentref Llanfachreth  
Nos Fawrth, Mawrth 17, 2020 am 7:30 o'r gloch.

## AGENDA

[www.cyngorllanfachreth.cymru](http://www.cyngorllanfachreth.cymru)

### **1. Croeso'r Cadeirydd**

### **2. Ymddiheuriadau:**

### **3. Datgan diddordeb.**

### **4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Chwefror 18, 2020**

### **5. Materion yn codi o'r cofnodion Chwefror 18, 2020**

Eitem 8.e. Llythyr (6/1/2020) oddi wrth Cymdeithas Undebol Machreth. Maent angen cymorth ariannol tuag at eu hapel am diffibriliwr i bentref Llanfachreth.

### **6. Gohebiaeth**

- a. Llythyr (19/2/2020) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bydd eu Seremoni Gwobrau Arfer Arloesol Blynyddol ar 26/3/2020 am 9.30yb yn Adeilad Hafod a Hendre, Maes Sioe Amaethyddol Cymru. Amgáu mae Agenda a Ffurflen Archebu; cost fydd £55 y pen. Bydd y cyfarfod yn gyfle cael gwybod y gwaith sy'n cael ei wneud gan gynghorau cymuned a thref.
- b. Llythyr (25/2/2020) oddi wrth Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru yn rhoi gwybod bydd gwaith ail-wynebu a llinellu yn cael ei wneud ar ffordd A494 yn Ffatri Laeth, Rhydymain rhwng 26/2/2020 a 4/3/2020.
- c. Llythyr (26/2/2020) oddi wrth Un Llais Cymru gyda manylion o sesiynau hyfforddi yn Gymraeg cynhelir yn Canolfan Hen Blas, Stryd Fawr, Y Bala. Y sesiynau bydd yn cael eu rhoi a'u dyddiad: Y Cyngor (8/4/2020); Cod Ymddygiad (6/5/2020); Sgiliau Cadeirio (3/6/2020); Y Cyngor fel Cyflogydd (1/7/2020). Cynhelir y sesiynau rhwng 6.30yh a 9:00yh. Cost hyfforddant yw £40.
- ch. Llythyr (2/3/2020) oddi wrth Un Llais Cymru gyda manylion swydd sydd ganddynt ei lenwi sef Swyddog Polisi. Bydd y swyddog yn gweithio o gartref ac yn rhan o dîm. Dyddiad cau – 17/3/2020.
- d. Llythyr (2/3/2020) oddi wrth Un Llais Cymru gyda manylion swydd sydd ganddynt ei lenwi sef Swyddog Datblygu Canolbarth a Gorllewin Cymru. Bydd y swyddog yn gweithio o gartref ac yn rhan o dîm. Dyddiad cau – 17/3/2020.

## **7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri6/**

a. Cais cynllunio NP5/54/568A. Gosod cladin llechi ar dalcen De Gorllewinol. Garth Wnion, Brithdir

## **8. Materion Ariannol**

a. Llythyr (19/2/2020) oddi wrth Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol Llywodraeth gydag Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-2021. Mae'r adroddiad ar we [Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol: adroddiad blynyddol 2020 i 2021](#) Adran 13 sy'n berthnasol i gynghorau tref a chymuned.

Yn yr adroddiad gall unigolyn wrthod derbyn taliadau yn rhanol neu'n llwyr os ydynt yn dymuno a gwneud hynny trwy ysgrifennu'n bersonol at y swyddog priodol.

Taliadau tuag at gostau a threuliau:

Rhaid i bob cyngor cymuned a thref sicrhau bod taliad o £150 y flwyddyn ar gael i'w haelodau fel cyfraniad at gostau a threuliau.

Ad-dalu costau teithio a chostau cynhaliaeth:

Mae opsiwn gan bob cyngor i ad-dalu costau teithio a chostau cynhaliaeth. Lwfansau milltiroedd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi 45c y filltir.

b. Llythyr (25/2/2020) oddi wrth Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru Sir Ddinbych yn diolch am ein rhodd o £100.

c. Llythyr (28/2/2020) oddi wrth Pwyllgor Neuadd Llanfachreth yn diolch am ein rhodd o £600.

f. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29 Chwefror 2020: £1,140.65.

ff. Balans yn y banc ar 29 Chwefror 2020: £2,538.38.

## **9. Adroddiad Cynghorvdd Peredur Jenkins**

a. Llythyr (2/3/2020) oddi wrth Mr D.E. Davies, Ymgynghoriaeth Cyngor Gwynedd (YCG). Mae'n rhoi gwybod cafodd adroddiad dydd Gwener (28/2/2020) fod darn o wal gynnal wedi disgyn o dan ffordd Lon Lefel. Oherwydd hyn mae'r ffordd wedi ei chau. Bydd gwaith yn cael ei wneud i drwsio'r wal a bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn clirio'r gwastraff o'r tirlithriad. Mae perchenog Tŷ Min wedi cael gwybod am y difrod. Amgáu mae lluniau yn dangos difrod i'r wal.

Anfonodd Peredur Jenkins (2/3/2012) llythyr i Mr Davies yn gofyn pa waith sydd angen ei wneud i drwsio'r difrod, amserlen i wneud y gwaith a pa drefniadau sy'n cael ei wneud i hysbysu trigolion yr ardal yn rhoi gwybod bydd angen archwilio'r wal.

Ateb oddi wrth Mr Davies (3/3/2020) yn rhoi gwybod bydd angen archwilio'r wal, mae ei leoliad mewn lle anodd a bydd angen cael caniatad Cyfoeth Naturiol Cymru i wneud gwaith oherwydd mae ar dir SSSI a SAC a'r angen i osod sgaffald yn yr afon. Roedd y ffordd wedi cau gan dirlithriad cyn difrod i'r wal.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

b. Llythyr (6/3/2020) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd gyda manylion Rhybudd Cau Ffordd mewn argyfwng ynglŷn â Lon Lefel, Ganllwyd. Mae'r ffordd ar gau ar sail iechyd a diogelwch i'r cyhoedd gan fod y wal gynnal y ffordd wedi ei thanseilio gan greu twll yn y ffordd yn ogystal â thirlithriad. Disgwylir cwblhau gwaith o fewn 21 diwrnod.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

## **10. Unrhyw fater arall**

Yn gywir,  
H.M. Edwards, Clerc

## Eitem unrhyw fater arall

### Materion i'w codi yn y Cyfarfod gan y Cynghorwyr

**Problem:**

**Gwaith angen ei wneud i ddatrys y broblem:**

**Lleoliad y broblem:**

-----

**Problem:**

**Gwaith angen ei wneud i ddatrys y broblem:**

**Lleoliad y broblem:**

-----